Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

At: Aelodau'r Cabinet

Dyddiad: 8 Rhagfyr 2014

Rhif Union: 01824706141

ebost: dcc_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CABINET, DYDD MAWRTH, 16 RHAGFYR 2014** am **10.00 am** yn **YSTAFELL BWYLLGORA 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL AR GYFER Y RHAN HON O'R CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIADAU O GYSYLLTIAD**

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS**

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION** (Tudalennau 7 - 14)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd 2014 [copi ynghlwm].

**5 YMGYNGHORIAD- YSGOL ESGOB MORGAN** (Tudalennau 15 - 64)

I ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Eryl Williams, Aelod Arweiniol Addysg (copi'n amgaeedig) yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i gyhoeddi'r hysbysiad statudol ar gynigion i newid ysgol o ysgol gynradd gymunedol i ysgol gynradd Ffydd Anglicanaidd a Reolir yn Wirfoddol.

**6 CYNLLUN TRWYDDEDU YCHWANEGOL AR GYFER TAI AMLFEDDIANNAETH (HMO)** (Tudalennau 65 - 158)

I ystyried adroddiad gan y Cynghorydd David Smith, Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus (copi'n amgaeedig), yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ail-ddynodi cynllun trwyddedu ychwanegol ar gyfer HMOs yn y Rhyl, ynghyd ag amodau a ffioedd cysylltiedig.

**7 AMRYWIO CYTUNDEBAU TENANTIAETH TAI CYNGOR** (Tudalennau 159 - 270)

I ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Hugh Irving, Aelod Arweiniol dros Gwsmeriaid a Chymunedau (copi'n amgaeedig), sy’n ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i fabwysiadu'r cytundeb tenantiaeth newydd gyda rhybudd ffurfiol o amrywiad.

**8 DADELFENNU NEWIDIADAU GWASANAETH AR GYFER TENANTIAID Y CYNGOR** (Tudalennau 271 - 280)

I ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Hugh Irving, Aelod Arweiniol dros Gwsmeriaid a Chymunedau (copi'n amgaeedig), sy’n ceisio cytundeb y Cabinet o egwyddorion allweddol er mwyn penderfynu sut y byddai taliadau gwasanaeth yn cael eu cyfrifo a'u gweithredu o renti o fis Ebrill 2015.

**9 ADRODDIAD PERFFORMIAD Y CYNLLUN CORFFORAETHOL (CHWARTER 2 2014 – 15)** (Tudalennau 281 - 358)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Barbara Smith, Aelod Arweiniol Moderneiddio a Pherfformiad (copi’n amgaeedig), yn diweddaru’r Cabinet ynglŷn â darparu’r Cynllun Corfforaethol 2012-17 ar ddiwedd chwarter 2, 2014 - 15.

**10 ADRODDIAD CYLLID** (Tudalennau 359 - 374)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau (copi ynghlwm) yn manylu ar y sefyllfa ariannol ddiweddaraf a’r cynnydd ar strategaeth y gyllideb y cytunwyd arni.

**11 RHAGLEN GWAITH I’R DYFODOL Y CABINET** (Tudalennau 375 - 380)

Derbyn Rhaglen Gwaith i’r Dyfodol y Cabinet sydd wedi’i hamgáu, a nodi'r cynnwys.

**12 DYFODOL GWASANAETHAU GOFAL CYMDEITHASOL MEWNOL** (Tudalennau 381 - 418)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol, Oedolion a Phlant, (copi'n amgaeedig) yn gofyn i'r Cabinet gytuno ag ymgynghoriad ar wasanaethau mewnol y dyfodol.

**RHAN 2 – EITEMAU CYFRINACHOL**

GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Argymhellir yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod tra bydd yr eitem ganlynol o fusnes yn cael ei hystyried, oherwydd ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu fel y'i diffinnir ym mharagraff 13, 14, 15 ac 16 o Ran 4, Atodlen 12A y Ddeddf.

**13 MORFA LODGE, FFORDD ABERGELE, RHUDDLAN A'R TIR YN FFORDD ABERGELE, RHUDDLAN** (Tudalennau 419 - 428)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, yr Aelod Arweiniol dros Gyllid ac Asedau, (copi'n amgaeedig) yn argymell i'r Cabinet gymeradwyo i ddatgan nad oes angen y fferm a'r tir, a'u gwerthu ar y farchnad agored.

**MEMBERSHIP**

**Y Cynghorwyr**

Hugh Evans
Julian Thompson-Hill
Eryl Williams
Bobby Feeley
Hugh Irving
Huw Jones
Barbara Smith
David Smith

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned